**Huw Lewis AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog dros Blant**
**Deputy Minister for Children**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: MB/HL/0026/11

Veronica German AM
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

24 February 2011

Dear Veronica

During the plenary debate on Families First on 15 February I agreed to send you a copy of the letter I sent to Leaders of local authorities in Wales inviting them to submit expressions of interest to become the next Families First pioneers. I enclose a copy of the letter, the accompanying guidance and the expressions of interest form as sent to Leaders. The information will now be published in the Members Library.

Best Wishes

Huw

**Huw Lewis AM/AC**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Huw Lewis AC/AM
Y Dirprwy Weinidog dros Blant
Deputy Minister for Children

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf:
Ein cyf: SF-HL-007-11

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

7 Chwefror 2011

Annwyl Brif Weithredwr

**Teuluoedd yn Gyntaf – Cam II**

Ar 20 Gorffennaf 2010 cyhoeddais yr ardaloedd cyntaf i fod yn Arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o'n hymrwymiad i gefnogi teuluoedd ac i drechu tlodi plant. Cyhoeddwyd dau gonsortiwm o ardaloedd arloesi: un yn y gogledd, dan arweiniad Wrecsam, ac yn cynnwys Sir y Fflint a Sir Ddinbych; ac un yn y de, dan arweiniad Rhondda Cynon Taf, ac yn cynnwys Merthyr Tudful a Blaenau Gwent.

Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw sicrhau bod ein buddsoddiad i gefnogi teuluoedd yn cael ei ddarparu mewn ffordd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gan fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd gennym. Mae'r ddau gonsortiwm cyntaf o arloeswyr wedi ymsefydlu'n dda ac yn symud o weithgareddau cwmpasu i gefnogi ystod o gamau gweithredu. Mewn sawl achos mae eisoes yn bosibl nodi'r arferion da sydd ar waith a'u rhannu ar draws y ffiniau rhwng sefydliadau ac awdurdodau lleol.

Pan gyhoeddais sefydliad Teuluoedd yn Gyntaf a'r ddau gonsortiwm cyntaf, pwysleisiais mai rhaglen genedlaethol ydoedd i newid y ffordd y caiff teuluoedd eu cefnogi. Mae'n bleser gennyf gyhoeddi'r broses o ddewis rhagor o arloeswyr i ddechrau ar y gwaith cyn gynted â phosibl ym mlwyddyn ariannol 2011/12.

Rwyf heddiw yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan ardaloedd lleol sy'n dymuno bod yn Arloeswyr Teuluoedd yn Gyntaf; mae canllawiau wedi'u hamgáu a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion yw 11 Mawrth 2011. Yna bydd y datganiadau o ddiddordeb yn cael eu hasesu a byddaf yn gwneud cyhoeddiad erbyn diwedd Mawrth, er mwyn i'r ardaloedd arloesi newydd gychwyn yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Bydd ein swyddogion ar gael i helpu i ddatblygu cynigion drwy gydol y cyfnod ymgeisio; ceir manylion cyswllt yn y canllawiau.

Yn fy llythyr dyddiedig 7 Hydref, nodwyd bod 2011-2012 yn flwyddyn drosiannol o ran cyllid Cymorth er mwyn paratoi i roi Teuluoedd yn Gyntaf ar waith yn llawn yn Ebrill 2012. Yn gynnar yn yr haf byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar yr hyn a ddisgwylir gan y rhaglen genedlaethol a'r ffordd y bydd yn gweithredu. Ar hyn o bryd, rhagwelwn y bydd ceisiadau ar gyfer 2012-13 yn cael eu cyflwyno yn hydref 2011 ac y bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2012.

Fel y dengys cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad, bydd ein buddsoddiad yn Nheuluoedd yn Gyntaf yn sefydlog y flwyddyn nesaf, a bydd cynnydd blynyddol yn y ddwy flynedd ariannol ddilynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae hyn yn tanlinellu ein hymrwymiad llwyr i ddiogelu plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud popeth a allwn i fwyhau ein hadnoddau a sicrhau canlyniadau gwirioneddol a mesuradwy sy'n lleihau'r anghydraddoldebau ar gyfer plant mewn tlodi. Mae hwn yn gyfnod heriol ac edrychaf ymlaen at gydweithio â chi ar ein rhaglen i deuluoedd dros y flwyddyn i ddod.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gydgysylltwyr Plant a Phobl Ifanc.

Yn gywir



**Huw Lewis AM/AC**

# Families First

## - Guidance for invitation to become a Pioneer -

### Background/Context

The Welsh Assembly Government is committed to the eradication of child poverty by 2020. This is an ambitious challenge at a time when public spending is contracting. In the new Child Poverty Strategy for Wales 2011 we have set out our three strategic objectives:

(i) to reduce the number of families living in workless households;
(ii) to improve the skills of parents and young people living in low income households so they can secure well-paid employment; and
(iii) to reduce inequalities that exist in health, education and economic outcomes of children and families by improving the outcomes of the poorest.

The Child Poverty Strategy also sets out the range of policies that, collectively, will help deliver these objectives. Families First is an integral part of our approach.

The Assembly Government has made increasing family prosperity a priority as this is a necessary condition for improving outcomes for children, young people and families but it is not on its own sufficient. Public services, communities and the third sector all have a vital role to play in shaping the life chances of children and Families First is intended to help transform services so that they better meet the needs of children, young people and families living in poverty and help to reduce inequalities.

Our approach is underpinned by our commitment to the United Nation's Convention on the Rights of the Child and the progressive realisation of children's rights.

### Putting Families First

Most children in Wales grow up in families and the home environment is fundamental to shaping children and young people's life chances. As a consequence, tackling inequalities and achieving better outcomes for children means supporting families.

Families do not come in neat packages, and they do not have identical needs. Accordingly, the variety of needs cannot always be met through one-size-fits-all solutions. Rather, children, young people and families often require a broad range of help and support of varying intensity, throughout life.

There is emerging consensus, and evidence from programmes like Flying Start, that the best way of supporting families, particularly those families in poverty, is through an integrated, whole family approach. The development of a whole family approach built around integrated services, providing holistic support to children, young people and families at every level of need is at the heart of Families First.

# Teuluoedd yn Gyntaf

## - Canllawiau ar gael gwahoddiad i fod yn Arloeswr -

### Cefndir/Cyd-destun

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'r her hon yn un uchelgeisiol mewn cyfnod pan fo arian cyhoeddus yn crebachu. Yn y Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru 2011 nodir ein tri amcan strategol:

(i) lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd di-waith;
(ii) gwella sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel er mwyn iddynt ddod o hyd i waith sy'n talu'n dda; a
(iii) lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant hefyd yn nodi'r ystod o bolisïau a fydd, gyda'i gilydd, yn helpu i gyflawni'r amcanion hyn. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan annatod o'n dull gweithredu.

Mae cynyddu ffyniant teuluoedd yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad – mae hyn yn angenrheidiol i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun. Mae gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a'r trydydd sector yn chwarae rhan hanfodol o ran llunio cyfleoedd bywyd plant, a nod Teuluoedd yn Gyntaf yw helpu i weddnewid gwasanaethau i sicrhau eu bod yn diwallu'n well anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, a helpu i leihau anghydraddoldebau.

Mae ein dull yn seiliedig ar ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac i fynd ati'n flaengar i wireddu hawliau plant.

### Rhoi Teuluoedd yn Gyntaf

Bydd y rhan fwyaf o blant Cymru yn tyfu i fyny mewn teuluoedd ac mae amgylchedd y cartref yn hanfodol i lunio cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. Felly, i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a sicrhau gwell canlyniadau i blant, rhaid cefnogi teuluoedd.

Ni ddaw teuluoedd mewn pecynnau taclus, a bydd eu hanghenion yn amrywio. Gan hynny, ni ellir defnyddio'r un atebion bob tro i ddiwallu'r amrywiaeth o anghenion. Yn aml, bydd angen ar blant, pobl ifanc a theuluoedd ystod eang o gymorth o wahanol ddwyster, a hynny drwy gydol eu bywydau.

Mae consensws yn datblygu, ynghyd â thystiolaeth o raglenni fel Dechrau'n Deg, mai dull integredig, teulu cyfan yw'r ffordd orau o gefnogi teuluoedd, yn enwedig teuluoedd tlawd. Mae datblygu dull teulu cyfan sy'n seiliedig ar wasanaethau integredig, ac sy'n


darparu cymorth cyfannol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd waeth beth fo lefel eu hanghenion, yn greiddiol i Deuluoedd yn Gyntaf.

Yn draddodiadol rydym wedi darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc gan ddefnyddio model haenog (Ffigur 1), sy'n cysylltu gwasanaethau â gwahanol lefelau o anghenion; mae hyn yn amlygu'r ystod o gymorth a'r gwasanaethau amrywiol sydd eu hangen i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd. Yn y cyd-destun hwn, nod Teuluoedd yn Gyntaf yw sicrhau:

1. gwelliannau yn y rhyngwyneb rhwng gwasanaethau a haenau o anghenion i sicrhau bod gwasanaethau'n ddi-dor ac yn cydweithio'n well;
2. gwasanaethau cryfach yn haenau 2 a 3 er mwyn lleihau nifer y teuluoedd sydd angen gwasanaethau haen 4.


Fodd bynnag, mae nifer o randdeiliaid wedi nodi mai'n anaml y bydd teuluoedd yn ffitio'n daclus o fewn y model haenog hwn.

**Ffigur 1:** Model haenog o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n cysylltu gwasanaethau â gwahanol lefelau o anghenion




Ffordd arall, sy'n cyd-fynd yn well â nodau Teuluoedd yn Gyntaf, yw rhoi cymorth i deuluoedd ar draws sbectrwm o anghenion, yn hytrach nag yn ôl natur y gwasanaeth sydd ei angen. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig cyfle i ardaloedd lleol ystyried a yw cymorth i deuluoedd yn gweithredu'n effeithiol ar draws y sbectrwm hwn ac yn darparu continwwm o gymorth.

Mae *Gr• p Modelau Newydd o Ddarparu Gwasanaethau* y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar yn trafod y dulliau Tîm o Gwmpas y Teulu amrywiol sydd ar waith yng Nghymru ac yn nodi'r angen am ddull systemig o gefnogi teuluoedd sy'n cynnwys atal, amddiffyn ac adfer (Ffigur 2).




- **Ataliol** – yn cymryd anghenion ehangach y teulu i ystyriaeth drwy fynd i'r afael ag anghenion unigol gan ddefnyddio ystod eang o raglenni/ymyraethau sydd fel arfer yn gyffredinol (ee drwy hybu rhianta cadarnhaol neu gefnogi dysgu fel teulu);

- **Amddiffynnol** – yn nodi ac yn helpu teuluoedd a allai, heb ymyrraeth, gyrraedd pwynt argyfwng. Defnyddir 'amddiffyn' yma mewn ystyr cyffredinol ac ni ddylid ei gymysgu ag 'amddiffyn plant', er enghraifft, fel y'i defnyddir yng nghyd-destun y gwasanaethau cymdeithasol neu'r gyfraith. Nod y dulliau gweithredu yw sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar a bod camau'n cael eu cymryd i gefnogi teuluoedd ymhell cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng, a cheisir atal problemau rhag cynyddu a throi'n argyfwng. Byddant fel arfer yn cynnwys ffyrdd llacach, amlasiantaethol o ddiwallu anghenion dynodedig (ee modelau Tîm o Gwmpas y Teulu);

- **Adferol** – yn cefnogi teuluoedd sydd wedi cyrraedd neu ar fin cyrraedd pwynt argyfwng drwy gymorth cwbl integredig (ee Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, GICD).

Nod y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella cymorth i deuluoedd (ei ddylunio a'i ddarparu), ac o wneud hynny, gobeithir lleihau nifer y teuluoedd sy'n datblygu anghenion mwy cymhleth ac sydd felly'n gorfod cael ymyraethau dwysach a mwy costus. Gan hynny, bydd Teuluoedd yn Gyntaf yn canolbwyntio'n bennaf ar ddulliau ataliol ac amddiffynnol.

Bydd sefydlu mwy o gysylltiadau â darparu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd cymhleth (ee GICD) a dulliau sy'n cael eu llywio gan gymunedau (ee Cymunedau yn Gyntaf) yn sicrhau dull system gyfan ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol er mwyn sicrhau gweithio effeithiol rhwng yr holl asiantaethau a'r gymuned o ran gweithio gyda phlant a theuluoedd difreintiedig. Byddant yn cysylltu ac yn hybu mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael yn ehangach i deuluoedd a chymunedau difreintiedig.

I ddatblygu agwedd integredig at gymorth i deuluoedd yng Nghymru a fydd yn gwella'r canlyniadau tymor byr a hwy i rieni, plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, credwn fod angen trefnu gwasanaethau mewn ffordd sy'n sicrhau bod y cymorth a ddarperir:

- **yn canolbwyntio ar deuluoedd**, ac yn mabwysiadu agwedd teulu cyfan at wella canlyniadau;
- **yn bwrpasol**, ac yn addasu'r cymorth ar gyfer amgylchiadau teuluoedd unigol;
- **yn integredig**, ac yn sicrhau bod y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn cael ei gydgysylltu'n effeithiol ar draws sefydliadau, gan wneud yn si• r bod y gwaith o asesu anghenion a chyflenwi yn cael ei gydreoli a bod modd i deuluoedd symud yn ddi-dor rhwng gwahanol ymyraethau a rhaglenni;
- **yn rhagweithiol**, ac yn ceisio nodi anghenion yn gynnar a sicrhau ymyrraeth briodol ar gyfer teuluoedd;
- **yn ddwys**, ac yn cael ei ddarparu mewn ffordd gadarn a diwyro, gan addasu pan fydd amgylchiadau teuluoedd yn newid; ac
- **yn lleol**, yn nodi anghenion cymunedau lleol ac yn datblygu ffyrdd o ddarparu gwasanaethau sy'n briodol ar gyfer yr anghenion hynny.

Mae'r gwaith o ddatblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau trwy Deuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gefnogi gan Gronfa Teuluoedd yn Gyntaf newydd, a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2012. Bydd y Gronfa Teuluoedd yn Gyntaf yn disodli Cymorth ac yn gweithredu ar sail wahanol, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i Gymorth. Wrth werthuso Cymorth gwelwyd bod y prosiectau'n gymharol fach ac wedi'u dosbarthu dros ystod oedran eang ac amrywiaeth o themâu; roedd felly'n anodd mesur cyfraniad Cymorth at wella lles plant a phobl ifanc yng Nghymru yn gyffredinol. At hynny, ni lwyddodd y grant i ddenu cyllid gan ddarparwyr y brif ffrwd, a fyddai wedi helpu i sefydlu arferion llwyddiannus wedi'u hariannu gan Gymorth. Mae ailddylunio Cymorth, a'r cymorth y bydd y gronfa newydd yn ei ddarparu ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, yn hanfodol i'n huchelgais o fynd i'r afael â thlodi plant.

## Beth sydd wedi digwydd hyd yma

Sefydlwyd Teuluoedd yn Gyntaf yn haf 2010, pan gyhoeddwyd bod dau gonsortiwm arloesi wedi'u dewis (awdurdodau lleol Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn y gogledd, a Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful yn y de). Mae tri o'r awdurdodau arloesi hefyd yn arloeswyr ar gyfer y rhaglenni peilot GICD i fynd i'r afael ag anghenion teuluoedd sydd wedi cyrraedd neu ar fin cyrraedd pwynt argyfwng. Mae hyn yn cynnig cyfle gwirioneddol i ystyried yr ystod eang o anghenion teuluol a'r ffordd orau i wasanaethau integredig helpu teuluoedd i fagu cadernid.

## Beth mae'r Arloeswyr yn ei wneud ar hyn o bryd

Mae'r consortia yn ceisio helpu teuluoedd i fod yn fwy cadarn a hunangynhaliol, drwy ddarparu gwybodaeth allweddol a phriodol ar gyfer teuluoedd a gweithwyr proffesiynol, a datblygu atebion cymunedol i faterion lleol. Roedd £1.35m ar gael i'r consortia yn 2010/11.

Mae consortiwm y de wedi nodi nifer o fentrau sy'n golygu bod y tri awdurdod yn cydweithio i wella gwasanaethau. Er enghraifft, mae Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn arwain ymarfer i nodi diffygion a dyblygu wrth ddarparu gwasanaethau, ac i ddeall sut

y bydd plant a'u teuluoedd yn rhyngwynebu â gwasanaethau. Mae'r awdurdodau hefyd yn bwriadu asesu'r potensial ar gyfer cydgomisiynu gwasanaethau cymorth i deuluoedd ar draws y consortiwm, ac yna'r potensial ar gyfer prosesau integredig a chyllidebau cyfun yn y blynyddoedd i ddod. Yn unigol, mae'r awdurdodau wedi cynllunio nifer o fentrau a fydd yn eu galluogi i ddysgu o enghreifftiau o'r arferion gorau yn y consortiwm. Er enghraifft, mae'r dull lleol o dargedu anghenion teuluol a ddatblygwyd drwy'r dull 'Canopi' yn RhCT bellach ar brawf mewn rhannau o Flaenau Gwent. Ym Merthyr maent wedi cyflawni gwaith blaengar ar nodi teuluoedd agored i niwed yn gynnar ac maent wrthi'n datblygu gwell ffordd o ymyrryd gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o Fodel Tîm o Gwmpas y Plentyn Blaenau Gwent. Mae RhCT a Merthyr hefyd yn cydweithio i gasglu gwybodaeth gynhwysfawr am sgiliau ac anghenion y gweithlu sy'n ymwneud â materion cymorth i deuluoedd.

Gwelwn yng nghonsortiwm y gogledd hefyd fanteision dod ag awdurdodau ynghyd a'u cael i wynebu heriau a dylunio gwell systemau cyflenwi. Mae'r consortiwm yn gweithio ar dair prif ffrwd waith. "Sicrhau Newid gyda'n Gilydd" yw ffocws y ffrwd waith gyntaf; mae'n adeiladu ar fodelau fel y model Tîm o Gwmpas y Plentyn sydd ar waith ar hyn o bryd yn y tri awdurdod ac yn eu newid i sicrhau eu bod yn canolbwyntio mwy ar deuluoedd. Mae'r ail ffrwd waith yn datblygu ffordd o ymgysylltu â chymunedau ac o arwain cymorth i deuluoedd drwy fenter Cynadledda Cymunedol. Mae'r drydedd ffrwd waith yn ehangu gallu a chymhwyster prosiectau fel Genesis i helpu rhieni a'r rhai sy'n gofalu am blant i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael gwaith neu hyfforddiant. Maent yn cynnwys mentora 1:1 ar gyfer teuluoedd anodd eu cyrraedd, cymorth i wella hunan-barch ac i fynychu hyfforddiant i wella sgiliau, mynediad at ofal plant a chymorth gyda chostau cludiant. Mae'r drydedd ffrwd waith hefyd yn rhoi pwyslais ar ffynonellau gwybodaeth a darparu.

**Dysgu gwersi**

I nodi'r hyn sy'n gweithio yn Nheuluoedd yn Gyntaf, i barhau i wella'r cyflenwi ac i sicrhau bod y gwersi o'r ardaloedd arloesi yn cael eu rhannu'n effeithiol ag ardaloedd eraill, rydym wedi comisiynu rhaglen ymchwil i gynnal a chofnodi'r prosesau hyn. Bydd 'adroddiad cyflawni' yn cael ei baratoi a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer cam nesaf Teuluoedd yn Gyntaf ac yn darparu argymhellion ynghylch gwerthuso'r rhaglen yn y tymor canolig a'r tymor hir.

**Sut i ymgeisio i fod yn Arloeswr**

Bydd union lefel yr arian a roddir i bob ardal yn dibynnu ar y cynigion a gyflwynir, eu hehangder, eu cwmpas, eu hansawdd a nifer y cyfranogwyr a nodwyd. Rhagwelwn y bydd y consortia presennol yn cael tua £1m yr un a chonsortia newydd yn cael hyd at £750,000 yr un.

Os hoffech fod yn gonsortiwm arloesi Teuluoedd yn Gyntaf, dylech gyflwyno cynnig ysgrifenedig byr (dim mwy na 15 tudalen) erbyn 11 Mawrth yn seiliedig ar y strwythur a atodwyd ar gyfer datganiadau o ddiddordeb. Dylid seilio ymatebion yn fras ar y pwyntiau canlynol:

- tystiolaeth o arferion da presennol eich ardal/oedd;
- dadansoddiad bwlch o ddyluniad a darpariaeth eich gwasanaethau presennol;

- cynigion ar gyfer gwella dyluniad a darpariaeth eich gwasanaethau;
- sut y mae'r cynnig yn ychwanegol at weithgarwch a darpariaeth y brif ffrwd;
- y canlyniadau yr ydych yn gobeithio'u cyflawni ar gyfer plant a theuluoedd a sut y bwriadwch eu mesur;
- y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys cysylltiadau â BGLl a PPPI;
- y partneriaid a fydd yn ymwneud â Theuluoedd yn Gyntaf – dylent gynnwys y BILl, y sector gwirfoddol, yr heddlu, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd *etc*; ac
- amcan o'r cyllid y bydd ei angen i gyflawni'r cynigion.

Mae trefniadau'r consortia presennol wedi bod yn effeithiol o ran rhannu'r arferion gorau, ac wedi galluogi'r consortia i ymchwilio i fodelau newydd o ddarparu gwasanaethau ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Credwn fod manteision sylweddol i'r ffordd hon o weithio; felly, byddwn yn awyddus i weld cynigion gan o leiaf 2, ond si• r o fod dim mwy na 3, awdurdod lleol yn cydweithio fel consortia drwy gydol y cyfnod arloesi. Os bydd rhesymau eithriadol ac argyhoeddiadol dros beidio â gweithio fel consortiwm, byddwn yn eu hystyried – ond disgwyliwn mai consortia fydd y norm.

Yn ogystal â gweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol disgwylir i gonsortia ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid â diddordeb uniongyrchol yn y gwaith o ddarparu cymorth i deuluoedd, gan gynnwys y sector gwirfoddol, yr heddlu, byrddau iechyd, a sefydliadau addysgol. Dylai ceisiadau nodi sut y bydd y consortiwm yn ymgysylltu â'r partneriaid lleol a rhanbarthol priodol hyn. Disgwyliwn hefyd i gynigion osgoi dyblygu ac amlygu cysylltiadau, er enghraifft â'r gwaith diweddaraf ym maes Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Rydym yn awyddus i estyn y consortia arloesi mewn ffyrdd a fydd yn caniatáu i faterion yn ymwneud â darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol â phoblogaeth gymharol fawr gael eu harchwilio. Felly, byddwn yn arbennig o falch o dderbyn ceisiadau sy'n cynnwys y naill fater neu'r llall.

## Plant a Phobl Ifanc Anabl a'u Teuluoedd

Dylid cynnwys plant anabl a'u teuluoedd ym mhob agwedd ar y fenter Teuluoedd yn Gyntaf, ond am fod plant a phobl ifanc anabl yn gr• p arbennig o fregus sy'n wynebu rhwystrau niferus, un o nodau Teuluoedd yn Gyntaf yw mynd ati'n benodol i wella'r cymorth a roddir i'r plant hyn a'u teuluoedd. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant yn cynnig templed ar gyfer gwasanaethau i holl blant Cymru; mae Pennod Pump yn arbennig yn nodi cyfres o safonau a chamau allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Mae'r holl Awdurdodau Lleol ac asiantaethau statudol eraill wedi bod yn gweithio'n unol â'r agenda hon am y pum mlynedd diwethaf.

Mae mwy o gyllid neilltuedig, tua £500,000, ar gael i'r consortia i helpu i ddatblygu ffyrdd anstatudol newydd o gynorthwyo plant anabl a'u teuluoedd. Dylai cynigion ynghylch defnyddio'r arian hwn fod yn seiliedig ar anghenion lleol ac ystyried mudiadau anabledd lleol. Fodd bynnag, dylai cynlluniau lleol hefyd roi sylw i flaenoriaethau Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru, sydd wedi nodi bod angen datblygu'r meysydd canlynol:

- Gwaith allweddol;
- Chwarae a hamdden, gan gynnwys darpariaethau chwarae cyn-ysgol a chynlluniau cyfeirio;
- Datblygu dulliau newydd, neu feithrin gallu, i ddarparu cymorth penodol ar gyfer rhieni plant anabl;
- Gofal plant;
- Uchafu lles.

Cofiwch gynnwys cynigion yn eich datganiadau o ddiddordeb, a byddwch yn ymwybodol o strategaethau cyfredol, cynlluniau a dyletswyddau sy'n datblygu wrth lunio'ch cynigion i osgoi dyblygu a sicrhau cyfatebolrwydd â'r hyn sydd eisoes yn digwydd.

**Edrych Ymlaen**

Bwriadwn gyhoeddi'r consortia newydd o ardaloedd arloesi erbyn diwedd Mawrth 2011 er mwyn i'r gwaith gychwyn yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Yna bydd y consortia o ardaloedd arloesi yn cael eu hariannu am 12 mis ac ni fydd mwy o ardaloedd arloesi yn cael eu cyhoeddi. Yn haf 2011 bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar roi Teuluoedd yn Gyntaf ar waith ym mhob awdurdod lleol yn 2012. P'un a fydd eich consortiwm yn llwyddiannus ai peidio eleni, bydd y tîm Teuluoedd yn Gyntaf yn cydweithio'n agos â chi i ddatblygu'ch cynigion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r tîm Teuluoedd yn Gyntaf ar gael i helpu i ddatblygu cynigion. I drefnu i siarad ag aelod o'r tîm ffoniwch 02920 82 3053 neu anfonwch e-bost i megan.colley@wales.gsi.gov.uk

**Families First 2011-12**
**Expression of Interest Form**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

| **1. Name/contact details of the person submitting the expression of interest:** | |
|---|---|
| **Name of Lead Contact and Organisation submitting EOI:** | |
| **Telephone:** | |
| **Email:** | |
| **Address:** | |
| | |

| **2. Evidence of current good practice within the consortia.** |
|---|
| |
| |

| **3. Gap analysis of current service design and delivery.** |
|---|
| |
| |

| **4. Please describe your proposals for improving service design and delivery to support families and tackle child poverty in the most efficient and effective way possible.** |
|---|
| |
| |

| **5. Please describe how the proposal will be additional to mainstream activity and provision.** |
|---|
| |
| |

| **6. List the outcomes for children and families that you are seeking to achieve and how you propose to measure them.** |
|---|

| |
|---|
| |
| |
| **7. What will the governance arrangements be?** |
| |
| |
| **8. Which other partners will be involved (eg health boards, voluntary sector, police, educational institutions)?** |
| |

| **10.What is the indicative level of funding required to deliver on proposals?** |
|---|
| |

| **10.What are your proposals for supporting disabled children in Wales through Families First?** |
|---|
| |

**The Family Support Team at the Welsh Assembly Government is available to support the development of proposals. Please contact the team on 02920 82 3053 to speak to a member of the team or e-mail megan.colley@wales.gsi.gov.uk**